Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

Cwmpas a Chymhwysiad

Mae Coleg Sir Benfro yn Goleg Addysg Bellach gyda'r prif gampws wedi'i leoli yn Hwlffordd, gyda champysau llai ar Faes Sioe Llwynhelyg a Fferm Folly. Mae'r Coleg yn darparu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, Lefel-A, Diplomâu Cenedlaethol, Addysg Uwch, dysgu seiliedig ar waith ac astudio rhan-amser. Er bod mwyafrif dysgwyr y Coleg yn byw yn y sir, mae rhai cyrsiau'n denu dysgwyr o rannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol. Mae gan y Coleg oddeutu 2,000 o ddysgwyr llawn-amser a 12,500 o ddysgwyr rhan-amser ac mae ganddo 510 o staff.

Cenhadaeth Coleg Sir Benfro yw ysbrydoli rhagoriaeth, grymuso unigolion a datblygu'r gweithlu yn y dyfodol.

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad 2
2. Rolau a Chyfrifoldebau 2
3. Datganiad o Fwriad 3
4. Y Nodau Lles 4
5. Datganiad Amgylcheddol 5
6. Diffiniadau 15
7. Cymeradwyaeth 16
Atodiad A – Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd 2016 17
Atodiad B - Datganiad 18
Yr Iaith Gymraeg 18
Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig 19

Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Bwrdd Corfforaeth y Coleg gyda chefnogaeth y tîm gweithredol ac uwch reoli yn cydnabod mai prif effeithiau amgylcheddol y Coleg yw'r defnydd o ynni, allyriadau trafnidiaeth a chynhyrchu gwastraff ac mae wedi ymrwymo i godi proffil datblygu cynaliadwy, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

1.2 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gyflawni hyn trwy wella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol yn barhaus, gan fynd i'r afael â'r meysydd allweddol canlynol.

- Cynnydd cymdeithasol sy'n diwallu anghenion pawb
- Diogelu'r amgylchedd yn effeithiol
- Defnydd darbodus o adnoddau
- Ymdrechu i gyflawni'r Nodau Llesiant fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.3 Y Polisi Cynaliadwyedd yw'r ddogfen gyffredinol ar gyfer rheoli a pherfformiad amgylcheddol. Mae Coleg Sir Benfro wedi ymrwymo i wella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd yn barhaus. Mae'r dystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn wedi'i chynnwys yn Atodiad A o'r polisi hwn sy'n nodi cyflawniad Safon y Ddraig Werdd a gyflawnwyd.

2. Rolau a Chyfrifoldebau

Amlinellir rolau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd yn y tabl isod:

Rôl	Cyfrifoldebau
Pennaeth	➢ Cyfrifoldeb cyffredinol am iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd ➢ Wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a gweithredu'n gynyddol Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Uwch Reolwyr	➢ Sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu i sicrhau gweithrediad effeithiol o'r Polisi Cynaliadwyedd ➢ Adolygu'r Polisi Cynaliadwyedd i sicrhau ei fod yn gweithio mor effeithiol a chadarn â phosibl
Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau	➢ Cyflawni'r holl gyfrifoldebau fel y manylir yn y System Rheoli Amgylcheddol ➢ Sicrhau monitro data amgylcheddol yn effeithiol er mwyn caniatáu i gamau priodol gael eu rhoi

	ar waith ar gyfer gwelliant parhaus ➢ Adolygu'r mesurau a gymerwyd i sicrhau bod y Coleg yn parhau i leihau ei ôl troed carbon ac yn gwella ei gynaliadwyedd amgylcheddol
Rheolwr Iechyd, Diogelwch, Cynaliadwyedd a Risg	➢ Cyflawni'r holl gyfrifoldebau fel y manylir yn y System Rheoli Amgylcheddol ➢ Sicrhau bod archwiliad mewnol yn cael ei gynnal ar y System Rheoli Amgylcheddol bob blwyddyn er mwyn caniatáu i gamau gweithredu gael eu rhoi ar waith ar gyfer gwelliant parhaus ➢ Darparu cyfleoedd datblygu staff amgylcheddol a chynaliadwyol i staff yn unol â'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi
Pob aelod o staff	➢ Gweithredu mewn modd cyfrifol a chydymffurfio â'r Polisi Cynaliadwyedd ➢ Ystyried effaith amgylcheddol rôl a chymryd mesurau i leihau'r effaith lle bo'n bosibl er mwyn caniatáu gwelliant parhaus ➢ Mynychu cyfleoedd datblygu staff lle bo angen i uwchsgilio gwybodaeth am gynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd

3. Datganiad o Fwriad

3.1 Cynnydd cymdeithasol sy'n diwallu anghenion pawb

- ➢ Darparu datblygiad proffesiynol i staff ym maes ymwybyddiaeth amgylcheddol
- ➢ Cyfathrebu â rhanddeiliaid perthnasol am faterion a chyflawniadau amgylcheddol, yn enwedig dysgwyr, staff a'r gymuned leol
- ➢ Sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i ymgorffori cynaliadwyedd, ymwybyddiaeth amgylcheddol a dinasyddiaeth fyd-eang yn y cwricwlwm a gweithgareddau dysgu er budd staff a dysgwyr
- ➢ Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithgareddau cynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol

3.2 Ymrwymiad i ddiogelu'r amgylchedd

- ➢ Hyrwyddo ac integreiddio polisïau, arferion ac ymwybyddiaeth rheoli amgylcheddol a moesegol cadarn yn y Coleg
- ➢ Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl Ddeddfwriaeth Amgylcheddol berthnasol a gofynion gwirfoddol eraill sy'n ymwneud â'n hagweddau amgylcheddol

- Cymryd camau perthnasol ar gyfer atal llygredd a materion amgylcheddol eraill a allai godi o weithrediadau'r Coleg
- Lleihau gwastraff trwy leihau defnydd, atal llygredd a datblygu gweithdrefnau rheoli ac ailgylchu gwastraff effeithiol
- Mae'r Coleg yn gwella ei gynaliadwyedd yn barhaus yn unol â Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

3.3 Defnydd darbodus o adnoddau

- Gwneud defnydd effeithlon ac amgylcheddol gyfrifol o ynni ac adnoddau eraill. Adeiladu ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwy mewn caffael, ceisio sicrwydd o arferion amgylcheddol cyfrifol gan bartneriaid masnachu a lle bo'n briodol gwahaniaethu o blaid nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol effeithlon
- Integreiddio cynaliadwyedd i'w holl weithdrefnau cynllunio a datblygu

4. Y Nodau Lles

4.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithio tuag at y Nodau Llesiant fel y'u diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Disgrifir y Nodau Lles ac amcanion y Coleg ar gyfer eu cyflawni isod:

4.2 Cymru ffyniannus

- Cyflawni yn erbyn ein polisi cynaliadwyedd, yn enwedig y defnydd effeithlon o adnoddau a'n heffaith ar newid yn yr hinsawdd
- Cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Coleg a'r blaenoriaethau gweinidogol ar gyfer addysg o ran diwallu anghenion dysgwyr a sicrhau eu dilyniant a'u cefnogaeth
- Ymgorffori cynaliadwyedd drwy'r cwricwlwm
- Cyflawni'r strategaeth ymgysylltu â chyflogwyr

4.3 Cymru wydn

- Sicrhau bod y cysylltiad rhwng busnes y Coleg a'r cwricwlwm yn adlewyrchu pwysigrwydd gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol

4.4 Cymru iachach

- Parhau i ddatblygu a chynnal gwasanaethau iechyd a lles rhagorol i staff a gwasanaethau cymorth rhagorol i fyfyrwyr
- Parhau i hyrwyddo gweithgareddau, digwyddiadau gwybodaeth a chyfleoedd trwy ASPIRE
- Parhau i sicrhau bod risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Coleg yn cael eu rheoli'n effeithiol

4.5 Cymru fwy cyfartal

- Parhau i werthfawrogi a pharchu staff a dysgwyr yn gyfartal, a'u hannog i ffynnu a chyrraedd eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau
- Parhau i ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu a gwaith teg, cyfiawn a chefnogol i'r ddwy ochr fel yr adlewyrchir yng ngwerthoedd craidd y Coleg

4.6 Cymru â chymunedau cydlynol

- Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol drwy brosiectau myfyrwyr fel glanhau traethau a thrwy Cadwch Gymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

4.7 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Parhau i ddarparu a datblygu cyfleoedd Cymraeg a diwylliannol i gymuned gyfan y Coleg, fel yr amlinellir ym mholisi a strategaeth y Gymraeg, gan adlewyrchu dyheadau *Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru*.

4.8 Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

- Mae Coleg Sir Benfro yn llofnodwr y Cytundeb Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG)
- Coleg Sir Benfro oedd y Coleg masnach deg cyntaf yng Nghymru

4.9 Mae'r Polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Coleg.

5. Datganiad Amgylcheddol

5.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynaliadwyedd ac yn ystod 2026-2027 bydd yn datblygu mentrau ymhellach i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hamcanion amgylcheddol ar gyfer 2026-2027 a'n perfformiad amgylcheddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ein hallyriadau carbon deuocsid.

5.2 Mae ein prif effaith ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnydd o ynni, trafnidiaeth a chynhyrchu gwastraff.

5.3 Mae allyriadau cadwyn gyflenwi a chymudo hefyd yn cael effaith fawr fel allyriadau cwmpas 3 ehangach. Mae'r Coleg yn gweithio i wella allyriadau carbon o flwyddyn ar ôl blwyddyn a chyda hyn, dod o hyd i ffyrdd o leihau allyriadau o'r meysydd hyn.

5.4 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i atal llygredd a phob mater amgylcheddol sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Coleg.

5.5 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a gofynion eraill perthnasol y mae'r sefydliad yn tanysgrifio iddynt.

5.6 Mae amcanion a thargedau wedi'u cynhyrchu er mwyn gwella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol Coleg Sir Benfro.

5.7 Mae Amcanion Amgylcheddol 2026-2027 fel a ganlyn;

Tabl 1: Amcanion

Nod	Amcanion	DPA	Cyfrifol/ Adnoddau	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad cwblhau
Diwylliant cefnogol ac amgylchedd diogel a chynaliadwy	Cwblhau holl gamau gweithredu 2026/27 ar y Strategaeth Cynaliadwyedd	Cwblhau 100% o gamau gweithredu 2026/27	HSSR ar gyfer gweithredoedd eu hunain ac ar gyfer monitro cwblhau camau gweithredu eraill	01/09/2026	30/08/2027
	Sicrhau bod data dibynadwy ar gael ar gyfer pob ynni adnewyddadwy ar y safle	Darperir data cywir ar gyfer 26/27	Rheolwr HSSR ac Ystadau	01/09/2026	30/08/2027
	Darparu hyfforddiant 'Egwyddorion Cynaliadwyedd' i staff	O leiaf 50% o staff yn derbyn hyfforddiant	Rheolwr HSSR	01/09/2026	30/08/2027
	Uwchraddio clociau amser ar gyfer y system wresogi i gysylltu â BMS	Mae clociau amser yn cael eu huwchraddio i gysylltu â BMS	Rheoli Ystadau	01/09/2026	30/08/2027
	Goleuadau allanol i'w rhoi ar amserlennydd BMS	Goleuadau allanol wedi'u cysylltu â'r amserlennydd BMS	Rheoli Ystadau	01/09/2026	30/08/2027

5.8 Perfformiad Amgylcheddol Blaenorol:

Ers 2005-2023 mae'r Coleg wedi gweithredu gwelliannau effeithlonrwydd ynni gan gynnwys:

- Cyflwyno System Reoli Rheolaeth Adeiladau ar y prif gampws
- Ffitiadau golau a reolir gan PIR wedi'u gosod ar draws ardaloedd defnydd uchel
- Gosod boeler biomas pelenni pren gyda chynhwysedd gwresogi o 300kW, sy'n gwasanaethu'r Ganolfan Hyfforddi Technoleg Adeiladu (agorwyd ym mis Mehefin 2008) a hefyd yn darparu gwres i'r Ganolfan Arloesi bresennol
- Gwresogi dŵr poeth thermol solar gydag arwynebedd casglwr o oddeutu 1.8 m² yn gwasanaethu'r ganolfan hyfforddi Technoleg Adeiladu (agorwyd ym mis Mehefin 2008)
- Gosod system Ffotofoltäig yn y Ganolfan Arloesi bresennol
- Prynu car trydan i leihau allyriadau trwy drafnidiaeth
- System oeri am ddim i'r brif ystafell weinydd TG
- Gosod meddalwedd mesurydd, monitro a thargedu awtomatig
- Gosod dau yriant cyflymder amrywiol a rheolyddion i gyflenwad y gegin a ffaniau echdynnu
- Amnewid goleuadau to gwydr dwbl i wydr triphlyg yn swyddfeydd S1 ac S7
- Cynnig teithiau i ddysgwyr ar gyfer technoleg gynaliadwy – helpu gyda'r cwricwlwm
- Gwell gorsafoedd ailgylchu
- Ni chaniateir gwelltynnau yfed
- Defnyddio gliter bioddiraddadwy
- Mae prisiau diodydd poeth wedi'u gostwng gan 20c ond os nad yw'r cwsmer yn defnyddio cwpan y gellir ei ailddefnyddio, yna codir 20c ychwanegol
- Gosod rheiddiaduron mwy effeithlon yng nghoridor F1
- Cynllun gwella Velux i wella effeithlonrwydd thermol, mae'r rhain yn cael eu pweru gan yr haul.
- Bydd adnewyddu coridor F1 yn gwella defnydd effeithlon o le gan arwain at well defnydd o adnoddau
- Cynllunio strategol i gau rhai canolfannau sydd oddi ar y safle a'u symud i'r prif safle er mwyn lleihau allyriadau carbon wrth deithio a defnyddio ynni
- Newid prif foeleri y campws gyda rhai mwy effeithlon sy'n costio tua £120k
- Datblygu Cynllun Gwella Amgylcheddol
- Ymrwymo i Carbon Sero Net
- Cynllun campws cyfeillgar i ddraenogod - Efydd
- Dolydd blodau gwyllt wedi'u plannu
- Newid yr holl oleuadau ar y safle gyda LED
- 16 Pwynt gwefru car trydan
- 200kW o solar PV wedi'i osod ar y prif adeilad
- Fel rhan o adeiladu'r adeilad peirianneg, gosod pwmp gwres ffynhonnell aer ac 85kW o PV
- Fel rhan o adeiladu adeilad yr academi, a gwblhawyd ym mis Awst 2022, cafodd ei ddylunio i weithredu ar lefel 'sero net'. Mae'n cynnwys pwmp gwres ffynhonnell aer a system

ffotofoltaig (PV) 50kW, ac mae'r inswleiddiad thermol wedi'i wella er mwyn cyflawni'r gwerthoedd U gofynnol.
- Codi polydwnnel i ddysgwyr Sgiliau Bywyd dyfu llysiau a gwerthu
- Prynu car trydan newydd a fan

Yn 2023/2024 y camau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol oedd:

- Gosod arae ffotofoltaig (PV) 100 kW ar adeilad y TIC i gynhyrchu trydan 'gwyrdd'
- Cwblhau cam olaf y cynllun amnewid ffenestri ym mis Hydref 2023, gyda'r nod o wella cysur thermol o fewn adeiladau a lleihau'r defnydd o nwy ar gyfer gwresogi
- Amnewidiwyd dau ffryiwr nwy gyda ffryiwyr trydan er mwyn lleihau'r defnydd o nwy
- Gweithredu Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ym mis Ebrill 2024, pan ddaethant i rym. Roedd hyn yn golygu newid lleoliad biniau yn gorfforol, yn ogystal â gweithredu strategaeth gyfathrebu ar gyfer staff a dysgwyr; nod y rheoliadau hyn yw gwella cyfraddau ailgylchu yng Nghymru ymhellach
- Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb yr adroddiadau ar allyriadau carbon, gan nodi gwelliannau pellach; bydd hyn yn galluogi targedu ymyriadau lleihau carbon yn fwy effeithiol
- Anfon neges atgoffa ar brynhawn dydd Gwener i annog staff i ddiffodd dyfeisiau cyn y penwythnos
- Amnewidiwyd byrddau gwyn a thaflunyddion gyda sgriniau Promethean, sy'n fwy effeithlon o ran ynni, er mwyn lleihau'r defnydd o drydan
- Cynnal diweddariad blynyddol o liniaduron, gan amnewid hen liniaduron gyda modelau mwy effeithlon i leihau'r defnydd o drydan
- Er mwyn cefnogi'r amgylchedd rhithwir sy'n tyfu, rhesymolodd y Coleg nifer y gweinyddion corfforol sydd angen trydan ac aerdymheru mewn ystafelloedd gweinyddion, gan leihau'r defnydd o drydan.

Yn 2024/25 y camau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol oedd:

- Drafftio'r Strategaeth Gynaliadwyedd, ymgynghori arni a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd ac Amgylchedd.
- Drafftio cofnod cofrestr risg cynaliadwyedd ar gyfer y gofrestr risg gorfforaethol, er mwyn tynnu sylw at ymrwymiad y coleg i gynaliadwyedd a'i bwysigrwydd. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y tîm arweinyddiaeth a'r pwyllgor cynaliadwyedd ac amgylchedd ac wedi hynny gan y pwyllgor archwilio.
- Y Pwyllgor Cynaliadwyedd ac Amgylchedd yn cytuno i lofnodi'r Cytundeb Nod Datblygu Cynaliadwy. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cytundeb ym mis Mehefin ar ein cynnydd cychwynnol

- Cynnal dadansoddiad bylchau yn erbyn Map Ffordd EAUC i garbon sero net a chreu infograffig
- Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal arolygiad o'r prif gampws ym mis Hydref 2024 i wirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gwahanu gwastraff newydd Cymru. Roedd y Coleg yn cydymffurfio ac argymhellwyd cymryd rhan mewn astudiaeth achos gyda WRAP Cymru i arddangos ein harfer gorau
- Datblygu fersiwn fewnol o lythrennedd carbon a fydd yn cael ei alw'n 'Egwyddorion Cynaliadwyedd', bydd yn cael ei dreialu yn 2025/26
- Y Rheolwr HSSR yn mynychu cyfarfodydd y Gynghrair Menter Gynaliadwy (SEA) sy'n anelu at gefnogi cyflenwyr lleol yn Sir Benfro i wella data allyriadau carbon a'u cynaliadwyedd cyffredinol a fydd wedyn yn darparu data allyriadau cwmpas 3 gwell i'r caffaelwyr
- Dechrau asesiad risg hinsawdd. Bydd hwn yn ddarn o waith dros gyfnod hirach o amser
- Mae ein hadran TG wedi gweithio gyda Dell. Rydym yn prynu gliniaduron yn uniongyrchol ganddynt, i leihau pecynnu ar swmp archebion. Nawr mae gliniaduron yn dod mewn un blwch o bump yn hytrach na'u pecynnu'n unigol, sy'n golygu gostyngiad o tua 80% mewn pecynnu.
- Mae'r prosiect i ddisodli byrddau gwyn a thaflunyddion â sgriniau Promethean sy'n fwy effeithlon o ran ynni i leihau'r defnydd o drydan wedi'i gwblhau.

Yn 2025/26 y camau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol oedd:

- Uwchraddio'r system BMS
- Fel rhan o waith adnewyddu G7 ac F7, gosod boeleri dŵr poeth trydanol mewn toiledau yn lle defnyddio'r boeleri nwy presennol. Bydd hyn yn lleihau faint o nwy a ddefnyddir, ond bydd yn cynyddu'r defnydd o drydan
- Gosod system ffotofoltaig (PV) ychwanegol gyda chynhwysedd o 50 kWh fel rhan o'r gwaith adnewyddu
- Bydd gan y fynedfa newydd raddfa EPC o A
- Mae 13 o leoedd parcio wedi'u marcio â llinellau croes gwyrdd ac wedi'u cadw ar gyfer staff a dysgwyr sy'n rhannu ceir
- Gosod stondin cynnal a chadw beiciau ger yr adeilad Peirianneg
- Mae'r Coleg yn prynu trydan o ffynonellau adnewyddadwy glân; mae'r rhain yn dod yn gyfan gwbl o ffynonellau ynni gwynt, solar a/neu ddŵr yn y DU
- Llunio cynllun lleihau carbon sy'n bodloni gofynion canllawiau tendro Llywodraeth Cymru
- Gwneud gwaith i ddatblygu modiwl e-ddysgu ar 'Egwyddorion Cynaliadwyedd' ymhellach
- Cynnal arolygon cynaliadwyedd ar gyfer staff a dysgwyr. Mae'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi a chynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu
- Cynnal arolwg ymysg staff ynghylch teithio i'r gwaith a gweithio gartref. Mae'r canlyniadau wedi cael eu dadansoddi a chynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu

Polisi Cynaliadwyedd

Defnydd o ynni ac allyriadau carbon

Tabl 2: Cynnydd rhwng blwyddyn sylfaenol 2002/03 a 2014/15

	2002/03	**2014/15**	**Gostyngiad i 2014/15**
Defnydd o drydan (kWh)	1,903,446	1,216,124	-36%
Allyriadau kg CO2	818,482	562,080	-31%
Defnydd Nwy (KWh)	3,059,897	1,221,923	-60%
Allyriadau kg CO2	581,380	275,543	-53%
Defnydd o ddŵr (m^3)	15,728	5701	-64%

Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

Tabl 3: Defnydd o ynni ac allyriadau carbon dros y 10 mlynedd diwethaf

	15/16	**16/17**	**17/18**	**18/19**	**19/20**	**20/21**	**21/22**	**22/23**	**23/24**	**24/25**	**25/26**
Defnydd o drydan (KWh)	1,203,928	1,283,243	1,282,844	1,324,736	1,114,364	908,280	1,085,702	966,180	883,562	802,596	815,675
Cynnydd (gostyngiad) flwyddyn ar ôl blwyddyn	-1%	+7%	-0.1%	+3%	-16%	-19%	+20%	-11%	-8.5%	-9%	+2%
Allyriadau kg CO2	496,078	451,137	363,135	374,993	247,294	261,702	316,265	252,704	242,855	217,704	150,380
Defnydd Nwy (KWh)	1,275,343	1,362,475	1,710,900	1,477,066	1,373,614	1,186,386	1,465,808	1,332,232	1,140,140	1,116,210	1,253,074
Cynnydd (gostyngiad) flwyddyn ar ôl blwyddyn	+4%	+7%	+26%	-14%	-7%	-14%	+24%	-9%	-14%	-2%	+12%
Kg Co2	234,663	278,803	349,657	301,735	252,566	246,507	314,431	284,618	243,008	237,876	266,300
Defnydd o ddŵr (m^3)	5502	6354	7333	7837	8,454	6763	8,075	7,625	8,588	7,826	6,979
Cynnydd (gostyngiad) flwyddyn ar ôl blwyddyn	-3%	+15%	+15.4%	+6.9%	+7.9%	-20%	+19.4%	-5.6%	+11%	-9%	-11%
Milltiroedd busnes staff		311,666	274,630	286,250	286,399	53,619	127,713	196,147	212,643	175,727	207,146

Cludiant uniongyrchol CO^2 (kgs) (defnydd busnes staff)		87,179	76,696	79,626	95,938	47,369	44,501	68,091	71,952	63,024	77,490

Mae Tabl 2 yn dangos y gostyngiad yn y defnydd o ynni ac allyriadau carbon rhwng y flwyddyn y dechreuodd y Coleg gofnodi defnydd ac allyriadau a chymryd camau i wella cynaliadwyedd, hyd at 2014/15.

Mae Tabl 3, uchod, yn dangos y gostyngiad o 32% yn y defnydd o drydan dros y 10 mlynedd diwethaf sy'n golygu gostyngiad o 70% yn yr allyriadau carbon cysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried bod yr ystâd wedi ehangu yn y cyfnod hwnnw, dangosir y defnydd o drydan fesul m² ac allyriadau carbon fesul m² yn Ffigurau 1 a 2 yn y drefn honno, a hefyd yn dangos y gostyngiad ers 02/03 yn y defnydd ac allyriadau carbon er gwaethaf y cynnydd ym maint yr ystâd.

Mae'r defnydd o nwy wedi gostwng 2% dros y 10 mlynedd diwethaf sy'n golygu gostyngiad o 12% mewn allyriadau carbon cysylltiedig, Mae'r ystâd wedi cynyddu yn y cyfnod hwnnw, ac felly mae'r defnydd o nwy ac allyriadau carbon fesul m² o nwy wedi gostwng fel y dangosir yn Ffigur 1 a 2 isod.

Mae dŵr wedi cynyddu 27% ers 15/16, fodd bynnag, wrth edrych ar y graff yn ffigur 3, mae dŵr wedi gostwng yn sylweddol ers 02/03 ac wedi aros yn weddol gyson ers 17/18 gan gynnwys ehangu'r prif gampws dros y cyfnod hwnnw.

Mae Tabl 3 yn dangos bod milltiroedd busnes staff wedi gostwng 34% dros y 9 mlynedd diwethaf ac mae'r allyriadau carbon cysylltiedig wedi gostwng 11%.

Mae Ffigur 1 a 2 yn dangos bod y Coleg wedi lleihau ei ddefnydd o ynni ac allyriadau carbon fesul m² ers 2018/19. Ni ellir ystyried y blynyddoedd 2019/20 a 2020/21 fel yr isaf gan eu bod yn flynyddoedd covid ac felly roeddent yn annormal o ran defnydd o ynni a gweithgarwch busnes arall. Mae'r defnydd o drydan a nwy wedi cynyddu rhwng 24/25 a 25/26 ond mae dŵr wedi gostwng. Er gwaethaf cynnydd yn y defnydd o drydan, mae'r allyriadau carbon cysylltiedig wedi gostwng oherwydd newid yn y ffactor allyriadau a ddefnyddir gan fod trydan grid yn dod yn lanach.

Ffigur 1: Defnydd Nwy a Thrydan fesul m²



Ffigur 2: Allyriadau Carbon



Ffigur 3: Defnydd o ddŵr



6. Diffiniadau

Tymor	Ystyr
Cynaliadwyedd	Y syniad y dylid cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd nad ydynt yn defnyddio adnoddau na ellir eu disodli ac nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd Y gallu i barhau ar lefel benodol am gyfnod o amser
Cwmpas 1	Allyriadau Cwmpas 1 yw'r allyriadau uniongyrchol hynny sy'n eiddo i gwmni neu'n cael eu rheoli gan gwmni
Cwmpas 2	Allyriadau Cwmpas 2 yw allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu ynni a brynwyd.

Cwmpas 3	Mae allyriadau Cwmpas 3 yn cyfeirio at yr holl allyriadau anuniongyrchol (heb eu cynnwys yng Nghwmpas 2) sy'n digwydd o fewn cadwyn werth y cwmni sy'n adrodd, gan gynnwys allyriadau i fyny ac i lawr y gadwyn.

7. Cymeradwyaeth

Enw'r Cymeradwywr	Dr Barry Walters
Llofnod y Cymeradwywr	
Swydd y Cymeradwywr	Pennaeth
Dyddiad	12/10/2026

Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

Atodiad A – Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd 2016



Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn ymgorffori'r egwyddorion allweddol canlynol o Reolaeth Amgylcheddol:

- Gwelliant Amgylcheddol Parhaus;
- Cydymffurfio â Rhwymedigaethau;
- Diogelu'r Amgylchedd;
- Rheoli Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr;
- Cyfathrebu Materion Amgylcheddol;
- Elfennau Systemau Rheoli Amgylcheddol.

Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

Atodiad B - Datganiad

Y Gymraeg

Mae gan y Gorfforaeth ddyletswydd i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o dan adran 150 (2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly, bydd yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnig a darparu gwasanaethau i fyfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach a'u bod yn medru defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r Safonau.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), y Gymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Sgiliau Hanfodol, Iechyd, Diogelwch, Diogelu, Lles a'r Amgylchedd.

Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig

Dylid cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (IIA) yn unol â'r Canllawiau IIA.

Adran 1: Manylion

Enw'r fenter *(Gallai hyn fod yn strategaeth / polisi / prosiect / gweithdrefn / penderfyniad strategol)*	Polisi Cynaliadwyedd
Penderfyniad Strategol	Ydy
Adran	HSSR
Awdur	Emma Thomas
Y rhai yr effeithir arnynt? Nodwch e.e. dysgwyr, staff, rhieni/gofalwyr, y gymuned ehangach ac ati:	Dysgwyr, staff, y gymuned ehangach
Proses weinyddol fewnol	Na
A yw'n Strategaeth/Polisi/Gweithdrefn newydd?	Na

Adran 2: Nodweddion gwarchodedig

Pa effaith fydd gweithredu'r fenter yn ei chael ar bobl sydd ag un neu fwy o nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?
Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried y gall unrhyw un yr effeithir arnynt gan y fenter ddeall yn llawn yr effaith, y cymhwysiad a'r canlyniadau arnynt os gweithredir y fenter e.e. y rhai sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau, o dan 18 oed, y rhai sydd â Saesneg fel ail iaith, ac ati.

Nodweddion gwarchodedig	**Effaith gadarnhaol**	**Dim Effaith**	**Effaith Negyddol**	**Esboniad / Tystiolaeth / Data Sut y gallai effeithio?**
	Ticiwch fel y bo'n briodol			
Oedran		✓		
Anabledd		✓		

Ailbennu Rhywedd		✓		
Priodas neu Bartneriaeth Sifil		✓		
Beichiogrwydd neu Famolaeth		✓		
Hil		✓		
Crefydd neu Gred		✓		
Rhyw		✓		
Cyfeiriadedd rhywiol		✓		

Adran 3: Y Gymraeg

Y Gymraeg A yw'r fenter yn effeithio ar:	**Effaith gadarnhaol**	**Dim Effaith**	**Effaith Negyddol**	**Esboniad / Tystiolaeth / Data Sut y gallai effeithio?**
	Ticiwch fel y bo'n briodol			
Cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg		✓		
Trin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg		✓		

Adran 4: Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol:	**Cadarnhaol / Mantais**	**Niwtral neu Amherthnasol**	**Negyddol / Anfantais**	**Manylion yr effaith / mantais / anfantais**
	Ticiwch fel y bo'n briodol			
Effaith ar leihau anfantais economaidd-gymdeithasol?		✓		

Polisi Cynaliadwyedd

Adran 5: Bioamrywiaeth a Carbon Sero Net

Bioamrywiaeth / Carbon Sero Net – A yw'r fenter yn effeithio ar:	**Effaith gadarnhaol**	**Dim Effaith**	**Effaith Negyddol**	**Esboniad / Tystiolaeth / Data Sut y gallai effeithio?**
	Ticiwch fel y bo'n briodol			
Cynnal a gwella bioamrywiaeth	✓			Mae'r polisi hwn yn cefnogi cynnal a gwella bioamrywiaeth.
Hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, h.y. cefnogi diogelu'r amgylchedd ehangach, megis ansawdd aer, lliniaru llifogydd, ac ati.	✓			Mae'r polisi hwn yn cefnogi arferion amgylcheddol a chynaliadwyedd da a thrwy hynny gefnogi diogelu ecosystemau a'r amgylchedd ehangach.
Cefnogi ymrwymiad y Coleg i Carbon Sero Net	✓			Mae'r polisi hwn yn sail i ymrwymiad y Coleg i carbon sero net.

Adran 6: Ymgysylltu ac Ymgynghori

Pa ymgysylltu ac ymgynghori fyddwch chi'n ei wneud?

Ymgysylltu ac Ymgynghori	**Ie / Na**	**Canlyniad**	**Dyddiad Gorffen**
UDRh			
LJCC			
Timau Rheoli Cyfadrannau Traws-golegol			
Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch			
Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	✓		

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant			
Grŵp Hygyrchedd Digidol			
Panel Diogelu			
Fforwm Staff			
Staff Ehangach			
Adrannol			
Swyddog Gweithredol Dysgwyr			
Grŵp Llywio'r Gymraeg			
Grwpiau Dysgwyr Ehangach			
Cymuned ehangach			
Arall *(nodwch os gwelwch yn dda)*			

Adran 7: Hygyrchedd Digidol

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried hygyrchedd digidol eich dogfen. Mae'r templed polisi yn gyffredinol yn cydymffurfio â gofynion hygyrchedd digidol, fodd bynnag, os ydych chi'n newid y fformatio neu'n ychwanegu tablau neu luniau at y ddogfen, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried hygyrchedd digidol a bod rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau.

Adran 8: Camau Gweithredu

O ganlyniad i gwblhau'r IIA, ystyriwch unrhyw gamau sydd angen eu cymryd i gael gwared ar neu leihau unrhyw effaith negyddol, neu i wella unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Effaith	**Camau gweithredu i wella effaith gadarnhaol neu liniaru camau negyddol**

Polisi Cynaliadwyedd

Rheolydd Dogfen
Cyfeirnod: ISPOL7304002
Rheolaeth: HSSR
Rhifyn: 14
Awdur: Emma Thomas
Cymeradwywr: Barry Walters

Adran 9: Monitro ac Adolygu

Sut y bydd y fenter ac unrhyw effeithiau yn cael eu monitro a'u hadolygu, cyfeiriwch yn benodol at unrhyw gamau a amlinellir uchod:

Monitro / Adolygu	Amserlen
	Blynyddol

Llofnodwyd (Awdur): Emma Thomas **Teitl: Rheolwr HSSR** **Dyddiad: Hydref 2026**